**CYNGOR CYMUNED BRITHDIR A LLANFACHRETH**

Cynhelir Cyfarfod o'r Cyngor yn Neuadd Llanfachreth
Nos Fawrth, Gorffennaf 21, 2026 am 7:30 o'r gloch.

**AGENDA**

[www.cyngorllanfachreth.cymru](http://www.cyngorllanfachreth.cymru)

**1. Croeso'r Cadeirydd**

**2. Ymddiheuriadau:**

**3. Datgan diddordeb.**

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mehefin 16, 2026**

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Mehefin 16, 2026**

Eitem 11.d. Dau lythyr ateb (17/6/2016) derbyniodd Delyth oddi wrth Mabon ap Gwynfor AS yn rhoi gwybod mae mater diogelwch ffordd A494 wrth yr Hen Hufenfa Rhydymain yn cael ei weithredu gan Rhwydwaith Ffyrdd Strategol Llywodraeth Cymru. O'r llythyr (29/4/2026) mae Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru trefnu arolwg cyflymder yn y lleoliad hwn.

Anfonwyd y ddau lythyr i'r aelodau.

Eitem 7.dd. Llythyr (7/7/2026) oddi wrth Swyddog Prosiect Adfywio Trefi (Gwynedd Ni) yn rhoi gwybod bod ein cais am grant yn llwyddiannus ac amgau mae ein cynnig y grant â'r telerau ac amodau a logos. Mae angen dychwelyd y ffurflen oedd gyda'r llythyr wedi'i llofnodi erbyn 21/7/2026.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Diolch i'r tri aelod anfonodd y llythyr yn ôl i'r Clerc wedi iddo ei golli.

Anfonwyd (9/7/2026) y ffurflen gais i Gerallt i'w arwyddo ac anfonwyd y ffurflen i'r Swyddog (10/7/20260).

**6. Gohebiaeth**

a. Derbyniwyd Bwletin Un Llais Cymru Rhif 26 (19/6/2026) yn cynnwys eitem 'Beth yw rôl Cynghorydd Cymuned neu Dref?'.

Anfonwyd y Bwletin i'r aelodau.

b. Llythyr (22/6/2026) oddi wrth Robin rhoi gwybod nid yw Llinos Evans â diddordeb am dderbyn swydd y Clerc.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Llythyr (25/6/2026) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd Tim Tacluso Ardal Ni yn gwneud gwaith yn ardal Brithdir a Llanfachreth ar 6-10/7/2026.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ch.  Llythyr (25/6/2026) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am Gyfarfod Blynyddol a Chyfarfod Cyffredin o Bwyllgor Ardal Meirionydd bydd yn cael ei gynnal ar 15/7/2026 am 7.00yh ar Zoom.  Amgáu mae Agenda y cyfarfodydd a Chofnodion Cyfarfod 14/4/2026.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

d.  Llythyr (29/6/2026) oddi wrth Swyddog Gwasanaethau Etholiadol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae Cyngor Gwynedd, yn ôl y gyfraith, wedi cyhoeddi ei adroddiad terfynol ar Arolwg o Drefniadau Etholiadol Cymunedol.  Bydd y Cyngor yn gweithredu'r newidiadau yn dilyn cyfnod o 6 wythnos gyda dyddiad cyhoeddi'r adroddiad.  Amgáu mae linc i wybodaeth.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

dd.  Llythyr (30/6/2026) oddi wrth Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn rhoi gwybod am waith hanfodol ar gyffordd A487 / A470 yn Cross Foxes bydd yn cael ei wneud rhwng 7/7/2026 a 10/7.2026.  Bydd y gwaith o ailwynebu y cyffordd yn cymryd lle yn y nos a gwaith llinellau gwyn yn ystod oriau gwaith arferol.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

## 7.  Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a.  Cais cynllunio rhif NP5/54/376C.  Newid defnydd o C5 (Ail Gartref) i Ddefnydd Unigryw (Sui Generis).  Hafod Owen, Abergeirw.

Derbyniodd Delyth lythyr ateb (17/6/2026) gan y Parc yn dweud cafodd disgrifiad y cais ei newid i gynnwys sôn am yr encil arfaethedig.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd gwrthod y cais ar i sail diffyg tystiolaeth bod y 'writer's retreat' arfaethedig yn faterol wahanol i lety tymor byr.  (Mae hwn yr un fath ar beth roddwyd yn cyfarfod mis Mehefin).

b.  Llythyr (24/6/2026).  Yn dilyn adborth gan Bartneriaeth Gwynedd ac Eryri, maent wedi newid dyddiad cau Ymgynghoriad Cynnig Ardoll Ymwelwyr Gwynedd o 15 Gorffennaf i 26 Gorffennaf 2026.  Amgau mae poster sy'n nodi'r dyddiad newydd.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c.  Llythyr (7/7/2026) oddi wrth y Parc gyda wybodaeth am eu Gwasanaeth Cydymffurfiaeth Cynllunio.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

## 8.  Materion Ariannol

a.  Derbyniwyd 7 dyfynbris gan gontractwyr gyda diddordeb am dorri gwair llwybrau cyhoeddus y gymuned.  Gweler Cofnodion Cyfarfod Mehefin 16, 2026, eitem 8.b.

Galwad ffôn (13/7/2026) oddi wrth Arweinydd Tim Mynediad, Cyngor Gwynedd yn holi sut mae penodi contractwr i dorri gwair yn mynd yn ei flaen.  Rhoddwyd gwybod iddo.  Awgrymwyd iddo mi ddylai Cyngor Gwynedd ystyried codi yr ad-daliad maent yn ei roi i'r Cyngor am dorri gwair gyda'r ad-daliad yn £490.30 ers 2017.

Balans yn y banc ar 29/6/2026:  £7,031.01.

**9. Archwilio**

a. Fel roedd ei angen rhoddwyd 'Hysbysiad o benodi o'r dyddiad ar gyfer hawliau etholwyr' ar ein hysbysfyrddau a gwefan ni ar 1/7/2027 at y dyddiau 6/7/2026 – 30/7/2026.

b. Derbyniais (8/7/2026) y ddogfen anfonais i Archwilio Cymru i gael ei archwilio yn ôl gan Royal Mail. Nid oedd wedi cael sylw gan Archwilio Cymru.
Anfonwyd (8/7/2026) y ddogfen i gyfeiriad arall oedd ar gael sef 1 Cwr y Ddinas, Caerdydd, CF10 4BZ, a llythyr i'r archwiliwr yn rhoi gwybod iddo anfonwyd y ddogfen wreiddiol i gyfeiriad 24 Heol y Gadeirlan fel roedd yn un o'r dogfennau. Roedd y cyfeiriad yn y ddogfen Saesneg yn gywir.

**10. Materion yr Aelodau**

**11. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

a. Llythyr ateb (26/6/2026) oddi wrth Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn rhoi gwybod mae'r goeden sy'n amharu ar welediad i deithwyr sy'n dod ar hyd ffordd ac ymuno a'r A494 ar dir preifat ac felly cyfrifoldeb y perchennog y tir i'w ei thocio, sef Troed y Rhiw. Mae gan Llywodraeth Cymru, fel Awdurdod Priffyrdd awdurdod i ofyn iddynt docio'r goeden ond ddim yr awdurdod i ofyn iddynt dorri'r goeden lawr. Mi fydd Swyddog o'r Asiantaeth yn galw yn yr eiddo a gofyn iddynt i ddocio'r gordyfiant yn ôl cyn gynted a bo modd. Os nad ydynt yn cydymffurfio, mae ganddynt broses gyfreithiol i'w gorfodi neu wneud y gwaith yn eu lle ac adennill y costau. Yn anffodus fe all hyn gymryd dipyn o amser, felly gobeithio iddynt gydymffurfio yn wirfoddol i wella'r sefyllfa cyn bo hir.
Gofynnwyd i Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru am eu barn ar weledigaeth y ffyrdd yr ardal yn enwedig llefydd gyda gwrychoedd.
Gofynnwyd i Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru i docio coed a thyfiant sy'n amharu ar olwg teithiwyr sy'n dod i mewn i bentref Rhydymain oddi ar y ffordd fawr yn ardal yr Ysgol Gynradd.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (26/6/2026) oddi wrth Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod maent wedi eu comisiynnu gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru i edrych i mewn i gryfhau'r waliau y ffordd sy'n dilyn at Pont y Ffatri. Bydd gwaith profi ar y safle yn digwydd yr haf yma i gadarnhau fod y cynllun o binio'r waliau at ei gilydd yn bosib gyda'r ffordd yn agored i draffig. Gobeithir bydd y gwaith dylunio wedi ei gwblhau cyn y Nadolig gyda'r bwriad i gychwyn ar y gwaith ar y safle cyn diwedd flwyddyn ariannol yma.
Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c.  Llythyr ateb (3/7/2026) Rheolwr Traffig a Llwybrau, Cyngor Gwynedd am faniau yn goryrru trwy Bentref Rhydymain.  Bydd Tim Traffig yn adolygu'r sefyllfa ac yn awgrymu os oes tystiolaeth o gerbydau yn goryrru i roi gwybod i Heddlu Gogledd Cymru.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr (13/7/2026) oddi wrth Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad, Cyngor Gwynedd gyda data yn rhoi gwybod bod ceir fel arfer ddim yn gwneud mwy na 21 milltir yr awr trwy Bentref Rhydymain.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Yn gywir,  H.M. Edwards, Clerc